SchoolBeat.org



Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr

***Police safeguarding the children of Wales through crime prevention education***

NEED WELSH

## 15

The All Wales School Liaison Core Programme
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Gydweithiwr,




**Gobeithio y cawsoch chi Flwyddyn Newydd hapus a diogel.**

**Yr Eitem Arbennig y tymor hwn yw diogelu plant a phobl ifanc mewn digwyddiad eithafol o ymosodiad terfysgol.**

## Cynnwys...


**EITEM ARBENNIG**

Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru ........ p 2-4

Ffiniau Sirol ........ p 5-6

Sbotolau ar Gyffur – Ffentanyl ........ p 7

Cymysgu cyffuriau – Defnyddio Cyffuriau Lluosog ........ p 8-9

SWGfL ac Wythnos Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2018 ........ p 10-11

Gwersi newydd RhGCYCG ........ p 12

Ymateb i Ddigwyddiadau o Secstio a Diogelu Dysgwyr ........ p 13

Diwrnod Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Adroddiad Effaith 2017 RhGCYCG ........ p 14


## ★★ EITEM ARBENNIG ★★

# Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

> "Yn dilyn yr ymosodiadau yn Llundain a Manceinion cefais gyfarfod yn ddiweddar gyda Chynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth o Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru i drafod eithafiaeth yn ein hysgolion. Er nad oes unrhyw gudd-wybodaeth ar hyn o bryd i awgrymu bod ysgolion mewn mwy o berygl, ac mae'n bwysig pwysleisio hynny - teimlaf fod angen i ysgolion adolygu eu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i ymdrin â digwyddiad o'r fath."
>
> **Kirsty Williams, AC.** Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yng Nghymru.





Siaradwch â'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol ynglŷn â darparu ein cyflwyniad ar Eithafiaeth ar gyfer gwasanaeth CA3/4:

**Peidiwch â Chynhyrfu a Byddwch yn Ymwybodol o'r Ffeithiau.**

**Mae canllawiau newydd i benaethiaid ac uwch dimau rheoli o'r enw; 'Protecting Schools: An Integrated Security Approach', ar gael ar wefan www.schoolbeat.org.**

Bydd yr opsiynau diogelwch amddiffynnol yn y pecyn cymorth hwn yn cynnig gwell diogelwch mewn perthynas â materion fel terfysgaeth yn ogystal â risgiau gan fygythiadau fel anifeiliaid peryglus, disgyblion anfodlon, rhieni treisgar, anhrefn cymdeithasol, troseddoldeb a digwyddiadau mawr yn ardal yr ysgol.






Cyngor y Llywodraeth os bydd unrhyw un yn cael ei ddal mewn sefyllfa frawychus fel gweithred derfysgol yw Rhedwch, Cuddiwch, Dywedwch.

Gweler ffilm fer yma www.youtube.com/watch?v=s3y51Vd4kJ4

# Cyngor y Llywodraeth

## Rhedwch

**Mae'n hanfodol eich bod yn symud oddi wrth y perygl. Ceisiwch ganfod lleoliad posibl y perygl a symudwch oddi wrtho.**


Efallai y bydd swyddogion heddlu ac aelodau eraill o staff diogelwch yn gweiddi cyfarwyddiadau arnoch chi. Gwrandewch yn ofalus a symudwch i ffwrdd yn gyflym.



## Cuddiwch

**Pan fydd y perygl yn ddifrifol efallai y bydd angen i chi guddio.**

Ceisiwch ddod o hyd i guddfan y tu ôl i waliau trwchus. Ewch o'r golwg cyn gynted â phosibl. Diffoddwch eich ffôn, gan gynnwys y gosodiad dirgrynu.




## Dywedwch

**Gan gadw mor dawel â phosibl, arhoswch yn guddiedig a defnyddiwch ffôn symudol i ddweud eich lleoliad wrth 999.**

Os nad ydych yn gallu siarad gallwch anfon neges testun at y gwasanaethau brys yn lle. Os ydych yn ffonio **999** ond yn methu â siarad bydd y cysylltydd yn gofyn i chi wneud sŵn. Os na allwch wneud hynny heb ddatgelu eich cuddfan, gallwch deipio **55** ar eich ffôn. Bydd hyn yn rhybuddio'r cysylltydd galwadau eich bod mewn sefyllfa ddifrifol ac yna bydd yn eich helpu. **Gwrandewch yn ofalus ar unrhyw gyfarwyddiadau.**



# Problem Ffiniau Sirol

Mae gangiau o ardaloedd trefol mawr **fel Llundain, Birmingham** a **Lerpwl** yn teithio i leoliadau llai i werthu Heroin a Crac-cocên. Mae'r gangiau hyn yn gweithredu yng Nghymru.

Mae aelodau gangiau neu eu **rhedwyr** yn teithio'n **rheolaidd** rhwng y lleoliad trefol a Chymru i gyflenwi **cyffuriau** a chasglu **arian parod.**

Mae gangiau'n **cam-fanteisio** ar blant i gyflenwi cyffuriau o'r ardal drefol i'r lleoliad gwledig yn defnyddio **bygythion, trais, caethiwed oherwydd dyled** a/neu drwy **feithrin perthynas amhriodol.**



## Mae plant a phobl ifanc yn agored i gael eu recriwtio gan y gangiau hyn.



> "Yr hyn a ganfyddwn, dro ar ôl tro, yw'r ffaith fod adnabyddiaeth gynnar yn hollbwysig i ddiogelu pobl ifanc sy'n agored i niwed a nodi a mynd i'r afael â cham-fanteisio gan gangiau / grwpiau."
>
> Saferlondon

**Mae plant a phobl ifanc yn agored i gael eu recriwtio gan y gangiau hyn.**

### Arwyddion i fod yn wyliadwrus ohonynt:

- Unigolyn yn mynd ar goll o'r ysgol neu'r cartref yn gyson a / neu'n cael ei ganfod y tu allan i'r ardal.
- Bod ag arian, dillad neu ffonau symudol heb esboniad.
- Derbyn gormodiaeth o negeseuon testun / galwadau ffôn.
- Perthnasau gydag unigolion neu grwpiau gormesol / hŷn.
- Gadael cartref / gofal heb esboniad.
- Amheuaeth o ymosodiad corfforol / anafiadau heb esboniad.
- Pryderon rhieni.
- Cario arfau.
- Dirywiad sylweddol o ran canlyniadau / perfformiad yn yr ysgol.
- Cysylltiad â gang neu'n unig ac ar wahân i gyfoedion neu rwydweithiau cymdeithasol.
- Hunan-niwed neu newidiadau sylweddol mewn lles emosiynol.
- Arwyddion o gamddefnyddio sylweddau.

# Pryderus?

## Beth ddylech chi ei wneud?

Dylai unrhyw ymarferydd sy'n gweithio gyda phlentyn neu unigolyn agored i niwed arall y maen nhw'n credu efallai eu bod mewn perygl o gam-fanteisio dros ffiniau sirol ddilyn eu canllawiau diogelu lleol a rhannu'r wybodaeth hon gyda gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol.



**Os ydych chi'n meddwl bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.**

Home Office

Canllawiau'r Swyddfa Gartref

**https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/626770/6_3505_HO_Child_exploitation_FINAL_web__2_.pdf**



# SBOTOLAU AR GYFER Ffentanyl

## Cyrhaeddodd Ffentanyl y tudalennau blaen yn ddiweddar ar ôl cael ei gysylltu â marwolaeth y canwr Prince.

Mae'r cyffur synthetig hwn yn cael ei gymysgu'n aml â Heroin y stryd neu gyffuriau dosbarth A eraill gan ddelwyr ac yna'n cael ei gyflenwi i gwsmeriaid. Ystyrir bod maint pen pin o'r cyffur yn beryglus. Mae isafswm o 60 o farwolaethau'n ymwneud â chyffuriau yn y DU rhwng 2016 a 2017 wedi cael eu cysylltu â Ffentanyl. Gall cyn lleied â 0.002g fod yn farwol.

**Yn yr Unol Daleithiau cafodd swyddog heddlu orddos o Ffentanyl ar ôl ei frwsio oddi ar ei grys yn dilyn cyrch cyffuriau.**

**Ymysg enwau'r cyffur ar y stryd mae 'drop dead' a 'serial killer'.**

**"Mae pobl yn cymryd risg enfawr gyda'u bywydau trwy gymryd y stwff hwn, dyna pam y byddem yn argymell yn gryf bod pobl sy'n cymryd cyffuriau cadw draw ohono"**

**Ditectif Uwch-arolygydd Pat Twiggs**
Heddlu Gorllewin Swydd Efrog




Er y gellir ei gael yn gyfreithlon ar bresgripsiwn, weithiau ar ffurf patshys neu chwistrell i'r trwyn, dim ond fel anesthetig ar gyfer anifeiliaid mawr fel eliffantod mae Ffentanyl yn cael ei ddefnyddio. Mae'n opioid synthetig cryf iawn i ladd poen sy'n cael ei ragnodi ar gyfer poen cronig.

## Poster ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn America sy'n tynnu sylw at gryfder Ffentanyl




Dywedodd Clive Wolfendale, prif weithredwr yr elusen CAIS yn ddiweddar **"Gallai'r cyffur ladd rhywun yn gyflym iawn!"**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn monitro effaith y cyffur yng Nghymru ar hyn o bryd.

# Cymysgu Cyffuriau



## DEFNYDDIO POLYGYFFURIAU

**Ystyr defnyddio polygyffuriau yw defnyddio mwy nag un cyffur, yn aml gyda'r bwriad o ategu neu wrthdroi effeithiau cyffur arall.**

**Mae risg gwirioneddol o orddos a marwolaeth.**

### Pam mae pobl yn cymysgu cyffuriau?

- I gynyddu effaith cyffur neu 'gyflymu' ei effeithiau disgwyliedig.
- I leihau effeithiau negyddol cyffur, fel arfer wrth 'sobri' ar ôl cymryd y cyffur hwnnw.
- I gymryd lle'r cyffur roedden nhw'n chwilio amdano mewn gwirionedd h.y. 'y nesaf peth ato'
- Roedd i'w weld yn 'syniad da ar y pryd'. Weithiau bydd pobl yn cymysgu cyffuriau pan fyddant yn feddw yn barod, pan nad ydynt yn meddwl yn glir neu os yw pobl o'u cwmpas yn cymysgu cyffuriau.

### Beth yw Effeithiau Cyfuno Cyffuriau?

**Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld union effeithiau cyffur. Mae pawb yn cael eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol**

Gall yr un person ddefnyddio'r un faint o'r un cyffur ar wahanol achlysuron a bydd yr effaith yn wahanol bob tro.

**Mae'r amrywiad hwn yn dibynnu ar:**

- Y cyffur ei hun (e.e. ei burdeb, faint sy'n cael ei ddefnyddio, pa mor aml mae'n cael ei ddefnyddio, sut mae'r cyffur yn cael ei ddefnyddio, os yw'r cyffur wedi cael ei dorri, neu ei gymysgu gyda chyffur arall).
- Yr unigolyn sy'n defnyddio'r cyffur e.e. ei hwyliau, disgwyliadau, personoliaeth a nodweddion unigol).
- Y lleoliad (e.e. lle mae'r unigolyn, y bobl sydd gyda'r unigolyn).

Os yw effeithiau **un cyffur yn anodd eu rhagweld**, yna mae bod dan ddylanwad **mwy nac un cyffur ar y tro** yn gwneud yr effeithiau hyd yn oed yn fwy **anrhagweladwy**.

Yn ogystal â'r holl ffactorau a restrwyd uchod, mae effaith cymysgu cyffuriau'n dibynnu ar ba gyffuriau sy'n cael eu cymysgu â'i gilydd.

### Cyffuriau Adfywiol

**– cynyddu gweithgarwch yn y brif system nerfol.**

Gall cyfuno gwahanol gyffuriau adfywiol gynyddu'r risg o broblemau calon a seicosis wedi ei ysgogi gan sylweddau, sy'n salwch meddwl difrifol sy'n achosi i bobl gamddehongli neu ddrysu realiti. Gall defnyddwyr hefyd gynyddu eu risg o brofi pryder neu byliau o banig.

**Mae cyffuriau adfywiol yn cynnwys:**

- Cocên
- Caffîn
- Methamffetamin
- Decsamffetamin (meddyginiaeth presgripsiwn a ddefnyddir i drin ADHD a narcolepsi).

# Cyfuno Cyffuriau sy'n Iselyddion

## Mae iselyddion neu dawelyddion

**– Yn lleihau gweithgarwch yn y brif system nerfol.**

Y prif berygl o gyfuno iselyddion yw eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i arafu curiad y galon a chyflymder anadlu. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o orddos marwol.

**Yn ychwanegol at y risg o ddefnyddio un cyffur sy'n iselydd, gall defnyddio mwy nac un ohonynt ar y tro:**

- Gynyddu'r risg o ddamweiniau neu anaf trwy fod 'allan ohoni'.
- Cynyddu'r risg o orddos nad yw'n farwol a all arwain at broblemau iechyd hirdymor a niwed parhaol i'r ymennydd.



**Mae iselyddion yn cynnwys:**

- Alcohol
- Heroin
- GHB
- Cetamin
- Cysglynnau
- Bensodiasepin (e.e. Xanax a Valium).

# Cyfuno Cyffuriau Adfywiol ag Iselyddion

**Gall cyfuno cyffuriau adfywiol ac iselyddion achosi effeithiau a risgiau anrhagweladwy.**

- Mae defnyddio Cocain ac Alcohol gyda'i gilydd yn cynhyrchu cemegyn o'r enw Cocaethylin, sy'n wenwynig ac a all arwain at farwolaeth.
- Mae defnyddio Methamffetamin ac Alcohol yn rhoi straen ychwanegol ar y galon, a all arwain at gymhlethdodau difrifol.
- Mae ysmygu Canabis gyda Thybaco'n cynyddu'r posibilrwydd o broblemau iechyd fel heintiau i'r llwybr kllwybr resbiradugemegion
- Gall cymryd Alcohol ac Ecstasi gyda'i gilydd gynyddu dadhydriad a gordwymo.

# Cyfuno Meddyginiaeth ar Bresgripsiwn â Chyffuriau

**Gall cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn ochr yn ochr ag unrhyw fath arall o gyffur gael effeithiau negyddol difrifol:**

- Gall defnyddio meddyginiaethau iselydd fel Bensodiasepin gydag iselyddion eraill fel Alcohol gynyddu'r risg o orddos.
- Mae defnyddio meddyginiaethau adfywiol fel Ritalin gyda chyffuriau adfywiol eraill fel Methamffetamin yn cynyddu'r risg o bryder a phyliau o banig, problemau calon a seicosis wedi ei ysgogi gan sylweddau
- Mae rhai mathau o gyffuriau gwrth-iselder yn cynyddu'r risg o syndrom serotonin pan gânt eu cyfuno â chyffuriau eraill sydd hefyd yn cynyddu lefelau serotonin yn yr ymennydd, fel Ecstasi/MDMA, Methamffetamin, Cocain a LSD.

SWGfL
Education that Clicks

# Creu, Cysylltu a Rhannu Parch ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2018

**Y slogan ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2018 yw, "Creu, Cysylltu a Rhannu Parch: Gyda chi mae dechrau rhyngrwyd gwell".**

Mae'r dathliad hwn, sy'n cael ei gyd-gysylltu yn y DU gan Ganolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU, yn cael miloedd o bobl o bob rhan o'r DU i gymryd rhan a helpu i hybu defnydd diogel, cyfrifol a chadarnhaol o dechnoleg ddigidol i blant a phobl ifanc.

**Cafodd Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2017 gefnogaeth gan 1,600 o sefydliadau, a lwyddodd gyda'i gilydd i gyrraedd 42% o blant ledled y DU.**

Mae cannoedd o ysgolion, grwpiau ieuenctid, cwmnïau, elusennau, gwasanaethau heddlu a chymorth ehangach yn ysbrydoli

**rhyngrwyd gwell**

ar y diwrnod **Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel** hwn.



## Cymrwch ran...

Ewch i **www.saferinternet.org.uk/safer-internet-day/2018**

Dilynwch Ganolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU ar **Twitter** **@UK_SIC**

Dilynwch Ganolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU ar **Instagram** **@UK_SIC**

Cofrestrwch fel Cefnogwr Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel **http://bit.ly/SID18Supporter**

Lawrlwythwch becyn cymorth yr ymgyrch **https://www.saferinternet.org.uk/safer-internet-day/2018/campaign-toolkit**

### Ar gael gan SWGfL:

- Pecynnau addysg i blant a phobl ifanc 3-18 oed, gan gynnwys cynlluniau gwersi, gwasanaethau, ffilmiau a gweithgareddau byr.
- Ffilmiau, cwisiau a chynnwys a chyngor arall diddorol.
- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol **#SID2018**.
- Digwyddiadau a gweithgareddau ledled y DU.

**Gellir gweld gwybodaeth bellach yma:**
**www.saferinternetday.org.uk**

# Wythnos Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2018







**Gofynnwch i'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol am ein hamrywiaeth o wersi ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd!**


## CA2




Gwers CA2 Isaf ar gadw'n ddiogel ar-lein.




Gwers CA2 Uchaf yn ymdrin â Seiberfwlio.




Gwers CA2 Uchaf ar gamddefnyddio dyfeisiadau digidol.

## CA3




Gwers CA3 ar secstio, y canlyniadau a'r gyfraith.




Gwers CA3 ar feithrin perthynas amhriodol ar y rhyngrwyd.

## Pynciau ar gyfer Gwasanaeth

- Meddyliwch Cyn Rhannu Ar-lein
- Byddwch yn SMART ar-lein
- Syrffio Mwy Diogel
- Hanes Jade
- Meddyliwch Cyn Clicio
- Seiberfwlio
- Amddiffyn eich Dyfeisiadau

# Gwersi Newydd Ar Gyfer 2017-18

**Cafodd ein Gwers Dewislen Cymorth CA2 newydd, 'Sylweddau Sinistr' ei lansio ym mis Awst yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r wers hon yn disodli TASK.**

Stori yw Sylweddau Sinistr sydd wedi ei hysgrifennu yn yr un arddull â'r gyfres ***'Hanesion Hyll'***. Mae'n cyflwyno tri **Sylwedd Sinistr**, **Tybaco, Alcohol a Thoddyddion**. Trwy weithgareddau rhyngweithiol mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am y risgiau, y canlyniadau a'r cyfreithiau sy'n rheoli'r sylweddau hyn.

**Delweddau Tybaco ac Alcohol o'n gwers newydd Sylweddau Sinistr**





**Ategir at y wers gan waith celf gwych sydd wedi cael derbyniad da iawn gan ddisgyblion:**

> **"Mae'n wych! Rydym yn gwybod eu bod nhw'n beryglus yn awr"**
>
> **Disgybl Blwyddyn 4**

> **"Roeddwn wrth fy modd gyda'r gwaith celf"**
>
> **Athro Ysgol Gynradd**







**Mae ein gwers CA4, Cyfraith Cyffuriau, wedi cael ei diweddaru i gynnwys newidiadau diweddar mewn cyfreithiau cyffuriau a sylweddau.**

Trwy weithdy rhyngweithiol mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am y risgiau, y canlyniadau a'r cyfreithiau sy'n rheoli camddefnydd sylweddau. Maen nhw'n cael eu herio i gymryd siawns mewn gweithgaredd sy'n archwilio cryfder, purdeb a chynnwys sylweddau anhysbys a dysgu am effeithiau camddefnydd sylweddau ar unigolyn.

Am fwy o wybodaeth gofynnwch i'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgol neu ewch i **Schoolbeat.org**

# Secstio:

## Ymateb i Ddigwyddiadau a Diogelu Plant a Phobl Ifanc

**Mae Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd wedi cynhyrchu canllawiau i leoliadau addysgol yng Nghymru i helpu ysgolion i ymdrin â secstio yn eu hysgolion.**

Nod y canllawiau yw cymryd agwedd 'synnwyr cyffredin' tuag at ymdrin â ***delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc (secstio)***, ac mae'n cynnig cyngor o fewn cyd-destun polisi amddiffyn plant yr ysgol ei hun.

### Mae'r canllawiau'n cynnwys:

- Ymateb i ddatgeliadau
- Trin dyfeisiadau a delweddau
- Asesu risg sefyllfaoedd
- Cynnwys asiantaethau eraill, gan gynnwys uwchgyfeirio i'r heddlu a gofal cymdeithasol plant
- Cofnodi digwyddiadau
- Cynnwys rhieni a gofalwyr
- Addysg ataliol

**Mae fersiwn Cymraeg a Saesneg y canllawiau yma:**

**https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/609874/6_2939_SP_NCA_Sexting_In_Schools_FINAL_Update_Jan17.pdf**

**https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-team-storage/Online+Safety/Sexting+in+Schools_Wales+Guidance+Nov+2017+CY.pdf**

## Secstio: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu dysgwyr

### Canllawiau ar gyfer lleoliadau addysgol yng Nghymru





### Edrychwch am adnoddau NEWYDD i athrawon ar feithrin perthynas amhriodol ar www.schoolbeat.org

**Darperir ar gyfer athrawon ar ôl y wers Edrychwch Pwy Sy'n Siarad.**



# Mawrth 18 2018

**Nod Diwrnod Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yw tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant ac annog pawb i fabwysiadu agwedd 'dim goddefgarwch' tuag at oedolion yn datblygu perthnasau amhriodol â phlant neu blant yn datblygu perthnasau amhriodol â phlant eraill.**

JOIN US IN THE FIGHT AGAINST CHILD SEXUAL EXPLOITATION
NATIONAL AWARENESS DAY
18 MARCH

**Mae Schoolbeat yn darparu nifer o adnoddau sy'n ymwneud â pherthnasau. Mae rhai gwersi'n ymchwilio'n fwy manwl i berthnasau amhriodol:**

- Hafan Ddiogel  CS
- Ffrind neu Elyn  CA2
- Yr Hawl i Fod yn Ddiogel CA2
- Edrychwch Pwy Sy'n Siarad  CA3
- Niwed Cudd  CA3
- Twyll Peryglus  CA3
- Na yw Na  CA4

**Meddyliwch, edrychwch a riportiwch gamdriniaeth**

**Siaradwch â'ch Swyddog Ysgol Cymunedol am fwy o wybodaeth ynglŷn â gwersi a gwasanaethau a chofiwch edrych ar wefan Schoolbeat!**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYNNYDD AC EFFAITH 2017

Mae RhGCYCG wedi cyhoeddi adroddiad effaith sy'n crynhoi ein cyraeddiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.




## Oeddech chi'n gwybod?

- *Cyflwynodd ein Swyddogion Cymorth Cymunedol Ysgolion 19,000 o wersi i 454,440 o ddisgyblion. Mae hynny bron yn hanner miliwn o ddisgyblion!*
- *Cafodd 4,303 o blant eu hatal rhag mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol trwy'r Polisi Trechu Troseddau Mewn Ysgolion.*

**Ni fyddai'r cyraeddiadau hyn yn bosibl heb eich cefnogaeth chi!**